# Y CYNGOR 01/03/11

**Yn bresennol**: Y Cynghorydd W Tudor Owen (Cadeirydd)
Y Cynghorydd John Gwilym Jones (Is-gadeirydd)

**Y Cynghorwyr:** Anwen Davies, E T Dogan, Dyfed Edwards, Dylan Edwards, Elwyn Edwards, Huw Edwards, Trevor Edwards, T G Ellis, Alan Jones Evans, Alun Wyn Evans, Gwen Griffith, Jean Forsyth, Seimon Glyn, Keith Greenly-Jones, Gwen Griffith, Margaret Griffith, E Selwyn Griffiths, Alwyn Gruffydd, Siân Gwenllïan, Christopher Hughes, Huw Price Hughes, Louise Hughes, Sylvia Humphreys, O P Huws, Aeron M Jones, Anne Lloyd Jones, Brian Jones, Charles Wyn Jones, Dai Rees Jones, Dyfrig Wynn Jones, Eric Merfyn Jones, Evie Morgan Jones, John Wynn Jones, J R Jones, Linda Wyn Jones, R L Jones, Penri Jones, Eryl Jones-Williams, P.G.Larsen, Dewi Lewis, Dewi Llewelyn, Dilwyn Lloyd, June Marshall, Keith Marshall, J Wynn Meredith, Llinos Merks, Dewi Owen, W Roy Owen, Arwel Pierce, Peter Read, E Caerwyn Roberts, Glyn Roberts, Ieuan Roberts, John Pughe Roberts, Liz Saville Roberts, Siôn Selwyn Roberts, Trevor Roberts, W Gareth Roberts, Dyfrig Siencyn, Ioan Thomas, Paul Thomas, Guto Rhys Thomas, Ann Williams, Gethin Glyn Williams, Gwilym Williams, J.W.Williams, R H Wyn Williams a Robert J Wright.

**Hefyd yn bresennol:** Harry Thomas (Prif Weithredwr), Dilwyn O Williams, Dafydd Lewis ac Iwan Trefor Jones (Cyfarwyddwyr Corfforaethol), Dilys Phillips (Swyddog Monitro/Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol), Dafydd Edwards (Pennaeth Cyllid), Iwan Evans (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol), Geraint George (Pennaeth Strategol a Gwella), Arwel Ellis Jones (Uwch Reolwr Perfformiad a Chraffu), Dewi Jones (Pennaeth Addysg), Gwenan Parry (Pennaeth Gofal Cwsmer), Dafydd Gibbard (Rheolwr Eiddo Corfforaethol), ac Eleri Parry (Arweinydd Tîm Pwyllgorau)

**Ymddiheuriadau**: Y Cynghorwyr Richard Lloyd Jones, Linda Morgan ac Owain Williams

**1 GWEDDI**

Agorwyd y cyfarfod gyda gweddi gan y Cynghorydd Huw Edwards.

**2 COFNODION**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2010 fel rhai cywir, yn amodol ar nodi'r wybodaeth ychwanegol ganlynol:

**Eitem 10 – Cydweithio**

Eglurodd aelod, ei fod wedi codi mater oedd yn ffeithiol gywir yng nghyfarfod diwethaf y Cyngor, sef, nad oedd Parc Cenedlaethol Eryri wedi derbyn ymateb i'w cais i gydweithio gyda Chyngor Gwynedd, a bod swyddog wedi amau'i air.

Eglurodd yr aelod bod ganddo dystiolaeth erbyn hyn oedd yn cadarnhau na dderbyniodd y Parc ymateb gan Gyngor Gwynedd tan15 Ionawr 2011. Pwysleisiodd ei fod yn anhapus iawn bod ei air wedi'i amau, a'i fod yn dymuno eglurhad llawn ynglŷn â'r mater.

**PENDERFYNWYD derbyn bod gair yr aelod yn gywir, bod camddealltwriaeth wedi digwydd, a bod yr aelod yn derbyn eglurhad llawn gan y swyddog perthnasol ynglŷn â'r hyn a arweiniodd at y camddealltwriaeth.**

**3 DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

(i) Dosbarthwyd i'r aelodau, cyn y cyfarfod, nodyn briffio gan y Swyddog Monitro ynglŷn â'r materion canlynol:-

**Cynllunio Busnes 2011/12 - Bidiau Refeniw a Chyfalaf** - nodwyd ei bod yn ofynnol i aelodau oedd â buddiant mewn cynnig penodol o fewn y pecyn, ddatgan eu buddiant ar gychwyn y drafodaeth.

**Treth Cyngor: Disgresiwn i ganiatáu disgownt -** eglurwyd bod yr eitem yn ymwneud â dau gategori o eiddo, sef, ail-gartrefi (tai gwyliau) oedd yn wag, ond wedi eu dodrefnu, a thai oedd wedi bod yn wag, a heb eu dodrefnu ers 6 mis neu fwy

Os oedd gan aelod dŷ yng Ngwynedd oedd yn disgyn i'r naill gategori neu' r llall, a'u bod yn talu treth cyngor arno nid treth annomestig, nodwyd bod angen iddynt ddatgan buddiant yn yr eitem a gadael y Siambr.

**Ad-drefnu ysgolion ardal Tywyn** – nodwyd bod aelodau oedd â buddiannau personol wedi cael cyngor unigol. Hefyd, eglurwyd bod gofyn i lywodraethwyr yr ysgolion dan sylw ddatgan eu buddiant ond y byddant yn cael siarad a phleidleisio ar y cynigion.

(i) Datganodd y Cynghorydd Anne Lloyd Jones fuddiant personol yn yr eitemau "Sefydlu Ysgol Ardal yn Llanegryn" a "Bwriad i gau Ysgol Aberdyfi" oherwydd ei bod yn gadeirydd corff llywodraethu Ysgol Penybryn, Tywyn.

Roedd yr aelod o'r farn nad oedd yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a chymerodd ran lawn yn y drafodaeth ar yr eitem.

(ii) Datganodd y Cynghorydd Louise Hughes fuddiant personol yn yr eitem "Sefydlu Ysgol Ardal yn Llanegryn" oherwydd bod ei merch yn mynychu Ysgol Llanegryn.

Eglurodd yr aelod ei bod wedi cael gollyngiad i siarad ar Ysgol Llanegryn gan y Pwyllgor Safonau yn y gorffennol. Nododd ei bod yn siomedig iawn bod ei chais diweddar i'r Pwyllgor Safonau, am ganiatâd i fod yn bresennol yn oriel gyhoeddus y Siambr, i wrando'r drafodaeth wedi'i wrthod.

Ychwanegodd bod cyngor cymuned Llanegryn a chyrff llywodraethol ysgolion Llanegryn a Llwyngwril hefyd yn anfodlon gyda'r penderfyniad.

Eglurodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol bod y Pwyllgor Safonau wedi rhoi ystyriaeth lawn i gais yr aelod, ac wedi penderfynu peidio caniatáu'r cais, oherwydd bod achosion cyfreithiol yn y gorffennol wedi gwahardd aelod gyda buddiant rhag aros yn yr oriel gyhoeddus. Hefyd byddai caniatáu'r cais yn gosod cynsail ar gyfer pob achos arall yn y dyfodol.

Gadawodd yr aelod y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem.

(iii) Datganodd y Cynghorydd Alun Wyn Evans fuddiant personol yn yr eitemau "Sefydlu Ysgol Ardal yn Llanegryn" a "Bwriad i gau Ysgol Aberdyfi" oherwydd bod ei wraig yn athrawes yn Ysgol Penybryn, Tywyn.

Datganodd y Cynghorwyr Anwen Davies, John Gwilym Jones, Dewi Llewelyn, Dyfrig Siencyn a Gethin Glyn Williams fuddiant personol yn yr eitem Treth Cyngor : Hawl Disgresiwn i Ganiatáu Disgowntiau oherwydd eu bod yn berchen eiddo gwag

Roedd yr aelodau o'r farn ei fod yn fuddiant oedd yn rhagfarnu, a gadawsant y cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitemau.

(iv) Datganodd y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol ddiddordeb yn yr eitem Cydweithio, ar ran hi ei hun, ac ar ran y swyddogion oedd yn bresennol, oherwydd y gallasai'r mater effeithio ar eu swyddi maes o law.

**4 CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD**

(i) Cydymdeimlwyd gyda'r Cynghorydd Owain Williams ar golli ei frawd yn ddiweddar.

Hefyd cydymdeimlwyd â phawb arall oedd wedi colli anwyliaid yn ddiweddar, a safodd y Cyngor mewn distawrwydd, fel arwydd o barch a chydymdeimlad.

(ii) Llongyfarchwyd Grŵp Masnach Deg Gwynedd ar gadw statws Masnach Deg i'r Sir am y ddwy flynedd nesaf, a diolchwyd i'r Cyng. Wyn Williams a swyddogion y Cyngor am eu gwaith ar y fenter.

(iii) Yn unol â Rheol Gweithdrefn 15(1) derbyniodd y Cadeirydd ddeiseb gan y Cynghorwyr Gwen Griffith, aelod Tregarth a Mynydd Llandygai a John Wyn Williams, aelod Pentir. Roedd y ddeiseb wedi'i harwyddo gan 300 o drigolion yr ardal yn pryderu am derfynu gwasanaeth bws rhif 6 Bethesda - Mynydd Llandygai, Sling, Tregarth, Glasinfryn - Bangor ac yn galw ar Gyngor Gwynedd i daprau'r gwasanaeth hanfodol yma. Roedd dros 100 o drigolion wedi arwyddo deiseb ar-lein yn ogystal.

Eglurodd y ddau aelod bod trigolion yr ardal yn bryderus iawn ynglŷn â'r sefyllfa. Nodwyd bod llawer o bobl oedrannus ac ieuenctid y fro yn gwbl ddibynnol ar y gwasanaeth, ac roeddynt yn erfyn ar y Cyngor i barhau â'r gwasanaeth i'r pentrefi hyn.

Diolchodd y Cadeirydd am y ddeiseb a gaiff ei throsglwyddo i'r gwasanaeth perthnasol.

## 5 MATERION BRYS

Cytunodd y Cadeirydd, o dan Adran 100B (4)(b) Deddf Llywodraeth Leol 1972, i gynnwys y mater yn ymwneud ag absenoldeb aelod oherwydd salwch fel mater brys, oherwydd nad oedd cadarnhad ynglŷn â'r sefyllfa ar adeg dosbarthu'r rhaglen. Byddai'r aelod wedi bod yn absennol am gyfnod hwy na 6 mis erbyn y Cyngor nesaf.

**ABSENOLDEB AELOD**

Adroddwyd gan y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol nad oedd y Cynghorydd Linda Morgan wedi bod mewn cyfarfod o'r Cyngor nac unrhyw un o'i bwyllgorau ers Medi 16, 2010, oherwydd salwch. Eglurodd bod Adran 85 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn darparu bod aelod yn peidio â bod yn aelod o'r Cyngor os metha fynychu unrhyw gyfarfod am gyfnod o chwe mis, heblaw bod y Cyngor yn cymeradwyo'r rheswm dros yr absenoldeb cyn i'r cyfnod o chwe mis ddod i ben. Daw'r cyfnod hwnnw i ben ymhen pythefnos, a gofynnwyd i'r Cyngor gymeradwyo'r rheswm dros absenoldeb yr aelod.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r rheswm dros absenoldeb y Cynghorydd Linda Morgan.**

## 6 CWESTIYNAU

Cwestiwn gan y Cynghorydd Eryl Jones-Williams

***"Pa gamau a gymer Yr Adran Addysg i geisio ymateb i'r prinder difrifol o athrawon cyflenwi Mathemateg ar gyfer ysgolion uwchradd pan fo athrawon i ffwrdd o'u gwaith, a hynny yn arbennig yn ardal Meirionnydd".***

***Ateb gan y Cynghorydd Liz Saville Roberts, Arweinydd Portffolio Addysg***

"Diolch i'r Cynghorydd Eryl Jones-Williams am ei gwestiwn sy'n mynegi pryder uniongyrchol am y sefyllfa hon yn ardal Meirionnydd yn benodol. Gwerthfawrogaf ei bryder a deallaf anawsterau'r ysgolion wrth wynebu'r sefyllfa.

1.2 Er nad yw'r broblem yn unigryw i Feirionnydd, mae'n amlwg bod y sefyllfa yno yn ddwys ar brydiau, yn enwedig yr angen i addysgu trwy gyfrwng Y Gymraeg.

1.3 'Rwyf eisoes wedi awgrymu'r canlynol i'r ysgolion:

- Ysgolion i gysylltu â'i gilydd i rannu gwybodaeth ac i weld a oes yna athrawon y gellid cysylltu â hwy.
- Ystyried cysylltu â'r Brifysgol i weld a fyddent yn fodlon rhyddhau darpar athrawon am gyfnodau penodol. (Gellid cyfeirio y byddai trefniant o'r fath yn cynnig profiadau ychwanegol i ddarpar athrawon).
- Ysgolion i gydweithio â'i gilydd mewn ardal i geisio goresgyn argyfwng.
- Trefnu dosbarthiadau ar ôl oriau arferol ysgol a hynny dan ofal athro/athrawon o ysgolion eraill.

1.4 Erbyn hyn deallaf fod dwy o'r ysgolion yn yr ardal wedi gwneud trefniadau dros dro ystyrlon dros ben ac yr wyf wedi cysylltu â hwy i ddatgan fy ngwerthfawrogiad.

1.5 Dymunaf nodi fod cynrychiolaeth o blith staff Yr Adran Addysg wedi bod yn Ffair Recriwtio Myfyrwyr yn Y Brifysgol ym Mangor. Cafwyd cyfle bryd hynny i gyfleu gwybodaeth i raddedigion am addysgu fel proffesiwn a chyflëwyd yr angen am athrawon Mathemateg.

1.6 Wrth i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru gynnal ymchwiliad i broblemau recriwtio athrawon, fe amlygwyd yr angen ym maes Mathemateg yn yr ardal hon.(Yn y cyd-destun hwn y mae'n briodol i mi nodi bod recriwtio i'r proffesiwn mewn sawl maes yn fwy problemus yn yr ardal hon o'r Sir).

1.7 Y mae'r Cynulliad ar hyn o bryd wrthi'n ymgynghori ar faes Datblygiad Proffesiynol Parhaus Athrawon. Byddaf yn gofyn i Gydlynydd Y Consortiwm ysgrifennu at Y Cynulliad yn pwysleisio'r angen am gyllid i gynnig cyfleoedd i athrawon ddiweddaru eu sgiliau mewn meysydd cwricwlaidd penodol. Fe gyfeirir at Fathemateg fel un maes amlwg y dylid sicrhau darpariaeth hyfforddi ar ei gyfer.

1.8 Cyflëir yr angen am athrawon i addysgu Mathemateg (yn enwedig trwy gyfwng Y Gymraeg) i bobl ifanc ein hysgolion wrth iddynt dderbyn cyngor gyrfaol a gwybodaeth am swyddi ar gyfer y dyfodol.

**Cwestiwn Atodol**

Diolch. Dwi'n derbyn yr ateb, ac yn gofyn i Arweinydd Portffolio Addysg

a swyddogion perthnasol gwasanaethau Addysg a Gofal Cwsmer drafod y mater, a rhyddhau datganiad i'r wasg, er mwyn ceisio datrys y broblem.

## 7 MATERION I'W PENDERFYNU GAN Y CYNGOR

**BWRDD Y CYNGOR – 22 CHWEFROR, 2011**

## (A) <u>CYLLIDEB A BLAENORIAETHAU'R CYNGOR 2011/12</u>

### (i) CYNLLUNIO BUSNES 2011/12 - BIDIAU REFENIW A CHYFALAF

Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella ar broses blaenoriaethu adnoddau bidiau refeniw a chyfalaf fel rhan o'r broses allweddol o adnabod a chytuno blaenoriaethau a chyllideb y Cyngor ar gyfer 2010/11;

(b) Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror, 2011 ynglŷn â'r bidiau refeniw a chyfalaf;

(C) Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror wedi penderfynu fel a ganlyn mewn perthynas â'r bidiau ar gyfer 2011/12:-

*(a) gymeradwyo'r bidiau refeniw a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella, yn amodol ar symud bid rhif Rhe05 – Swyddog Cludiant Cymunedol - o Atodiad C i Atodiad B gan fod y mater wedi'i adnabod fel prosiect blaenoriaeth posibl yng nghynllun 3 blynedd y Cyngor.*

*(b) gymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella gan gynnwys yr ymrwymiad i ariannu bid GOFC02 yn llawn dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf.*

(ch) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiadau gan Arweinydd y Cyngor, a manylwyd ar y broses drylwyr o flaenoriaethu'r bidiau.

(d) Codwyd y materion canlynol gan aelodau:-

<u>GofC05 – Cyflwyno cynllun trwyddedu meddalwedd Microsoft</u>

Gofynnodd aelod i'r Gwasanaeth Gofal Cwsmer roi ystyriaeth i beidio defnyddio meddalwedd Microsoft oherwydd bod llawer meddalwedd arall ar gael yn rhad ac am ddim.

Mewn ymateb, eglurodd y Pennaeth Strategol a Gwella nad oedd y bid yn cael ei gefnogi ar hyn o bryd, bod bwriad cynnal asesiad llawn o'r dewisiadau yn ystod y flwyddyn, a chyflwyno argymhellion i'r cylch blaenoriaethu nesaf.

<u>PaB01 - Atal Dirywiad Strwythurol Ffordd y Promenâd, Abermaw</u>

Nododd aelod ei fod  yn anfodlon iawn bod y bid i atal dirywiad a achosir gan effaith y môr yn Abermaw wedi ei wrthod. Eglurodd bod pryder wedi ei fynegi parthed erydiad y môr yn Abermaw yng nghyfarfod trefnu rhaglen Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

Ychwanegodd ei fod yn croesawu'r cynllun peilot oedd ar y gweill ym Mhwllheli, ond pwysleisiodd bod angen rhoi sylw buan i Abermaw ynghyd â rhannau eraill o arfordir Gwynedd.

Gofynnodd i swyddogion gyflwyno adroddiad manwl ar y mater i gyfarfod nesaf Pwyllgor Craffu Amgylchedd.

<u>DaCh05 – Peiriannau Argraffdy</u>

Nododd aelod ei fod wedi'i siomi bod y bid i uwchraddio peiriannau'r argraffdy wedi'i wrthod.

Cyfeiriodd at adroddiad a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio oedd yn dangos nad oedd yr argraffdy'n cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial, gyda llawer o'r gwaith yn cael ei roi i gwmnïau allanol. Nododd y bydd gwrthod y bid yn golygu bod y gwaith yn parhau i gael ei gyflawni gan gwmnïau allanol ar gost uwch i'r Cyngor.

Mewn ymateb, adroddodd y Pennaeth Strategol a Gofal eu bod yn y broses o ddatblygu achos buses ar gyfer yr argraffdy, ac y bydd yr ystyriaethau a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio yn cael eu hystyried er mwyn cytuno ffordd ymlaen.

**PENDERFYNWYD**

**(a) gymeradwyo'r bidiau refeniw a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategaeth a Gwella, yn amodol ar symud bid rhif Rhe05 – Swyddog Cludiant Cymunedol - o Atodiad C i Atodiad B gan fod y mater wedi'i adnabod fel prosiect blaenoriaeth posibl yng nghynllun 3 blynedd y Cyngor.**

**(b) gymeradwyo'r bidiau cyfalaf a amlinellwyd yn adroddiad y Pennaeth Strategol a Gwella gan gynnwys yr ymrwymiad i ariannu bid GOFC02 yn llawn dros y cyfnod 5 mlynedd nesaf.**

**(ii) STRATEGAETH ARIANNOL 2011/12 – 2014/15**

Cyflwynwyd:-

(a) Adroddiad Dilwyn Williams, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar strategaeth ariannol 2010/11

(b) Dyfyniad o gofnodion y cyfarfod o Fwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror, 2011 ynglŷn â'r Strategaeth Gyllidol oedd yn cynnwys argymell cynnydd yn y Dreth Gyngor o 3.9% ar gyfer 2011/12;

(c) Penderfyniad drafft ar gyfer gosod y Dreth Gyngor ar gyfer 2011/12 a datganiad o'r cynnydd yn y Dreth Gyngor D fesul cymuned.

(ch) Adroddwyd bod y Bwrdd yn ei gyfarfod ar 22 Chwefror wedi penderfynu fel a ganlyn mewn perthynas â chyllideb 2011/12:-

*(i)* *mabwysiadu'r gyllideb ar gyfer 2011/12 yn unol â'r manylion yn adroddiad y Cyfarwyddwr, ond gan nodi fod cyfanswm y rhaglen gyfalaf am fod yn £22.698m, gyda benthyciadau darbodus yn codi i £9.918m;*
*(ii)* *cyflwyno cynnydd o 3.9% yn lefel y Dreth Gyngor yn 2011/12;*
*(iii)* *ychwanegu £100,000 at y Gronfa Maint Dosbarthiadau, er mwyn lleddfu problemau ysgolion mawr a chanolig;*
*(iv)* *y dylid ariannu hyn o'r adnoddau parhaol a gynhyrchwyd yn 2010/11, er mwyn cyfrannu at y bwlch ariannol ( a grybwyllwyd yng nghymal 2.8 yr adroddiad) gan ddefnyddio £100,000 o falansau yn 2011/12 i ariannu bidiau unwaith ac am byth;*
*(v)* *mabwysiadu'r strategaeth ar gyfer cwrdd â'r diffyg cyllidol yn ystod y 4 blynedd nesaf, yn unol â'r manylion yn adroddiad y Cyfarwyddwr wedi'i addasu i adlewyrchu penderfyniad (ii), (iii) a (iv) uchod.*

(d) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid ac amlinellwyd y materion i'w hystyried er mwyn sefydlu cyllideb ar gyfer 2011/12, cytuno lefel y cynnydd yn y Dreth Cygnor, darparu cymorth i ysgolion mawr a chanolig, a chytuno strategaeth er mwyn cau'r bwlch ariannol .

Eglurwyd bod cau'r bwlch ariannol, a darganfod arbedion o dros £37m yn her sylweddol i'r Cyngor, a bod y sefyllfa wedi codi oherwydd polisïau Llywodraeth San Steffan i wasgu ar y sector gyhoeddus, er mwyn datrys problemau ariannol y wlad.

Nodwyd bod cyllidebau gwasanaethau sy'n gofalu am drigolion bregus y sir yn crebachu, a bod y sefyllfa'n drychinebus yma yng Ngwynedd oherwydd bod y nifer sydd angen cymorth gan y Cyngor yn cynyddu. Hefyd roedd canran uchel o drigolion y sir yn gweithio yn y sector gyhoeddus.

Eglurwyd bod pwyslais yn y strategaeth ar geisio cyflawni arbedion effeithlonrwydd, cadw toriadau i wasanaethau mor isel â phosibl, a diogelu cyn gymaint o swyddi a phosibl. I'r perwyl hwn eglurwyd bod y Prif Bwyllgor Craffu a'r Bwrdd wedi argymell cynnydd o 3.9% yn y Dreth Cyngor, er mwyn taro cydbwysedd rhwng cynnal gwasanaethau a pheidio â rhoi gormod o bwysau ar drethdalwyr y sir.

Pwysleisiwyd y byddai llai o gynnydd yn y Dreth Cyngor yn golygu mwy o arbedion/toriadau a bod angen cloriannu'r sefyllfa'n ofalus.

Adroddodd Arweinydd Cyllid ymhellach ei bod yn rhannu pryderon ynglŷn â sefyllfa gyllidebol ysgolion cynradd, a phwysodd am gefnogaeth i ychwanegu £100,000 at y Gronfa Maint Dosbarthiadau, er

mwyn creu cronfa o £300,000 ar gyfer lleddfu problemau ysgolion mawr a chanolig y sir.

Pwysleisiwyd pwysigrwydd cynllunio tymor hir gofalus, a nodwyd bod bwriad cynnwys aelodau etholedig a thrigolion Gwynedd yn y broses.

(dd) Trafodwyd agweddau o'r gyllideb a'r argymhellion cysylltiedig mewn manylder, ymhelaethodd y Cyfarwyddwr ar agweddau technegol o'r strategaeth, a nodwyd y sylwadau canlynol:-

(i) Cyfeiriodd aelod at y ffaith nad oedd ychwanegiad i'r Dreth Cygnor yn Lloegr na'r Alban. Nododd bod Treth Cyngor yng Nghymru wedi dyblu dros y 12 mlynedd diwethaf, a'i fod yn anfodlon llwytho trigolion Gwynedd gyda chynnydd o 3.9%. Cynigiodd y dylid rhewi'r Dreth Cyngor ar ei lefel bresennol, a pheidio cynyddu treth eleni.

(ii) Nododd aelod arall ei fod o'r farn bod cynnydd o 3.9% sef taliad o bron i £1,300.00 y flwyddyn i drigolion ym Mand D yn ormodol. Er bod y rhan fwyaf o drigolion ym Mand D neu lai, pwysleisiodd mai 10% yn unig ohonynt, oedd yn derbyn cymhorthdal, gyda 5% yn cael cymhorthdal llawn a 5% yn cael peth cymhorthdal.

Cyfeiriodd yr aelod ymhellach at y posibilrwydd o ddefnyddio balansau neu'r gronfa resefau ar gyfer cadw lefel y cynnydd yn y dreth yn is, er mwyn rhoi cyfle i drigolion y sir ymdopi gyda'r dirwasgiad. Cynigiodd y dylid cynyddu'r Dreth Cyngor 3.2%.

Mewn ymateb, eglurodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol bod gan y Cyngor falansau o tua £8m oedd yn rhydd i'w gwario. Fodd bynnag, eglurodd y bydd rhaid talu am gostau diswyddo staff o'r balansau cyffredinol yn y dyfodol. Os na fydd y balansau ar gael, pwysleisiodd y bydd rhaid dod o hyd i doriadau ar gyfer talu costau diswyddo.

O safbwynt y gronfa reserfau, eglurodd bod yr arian wedi'i glustnodi'n barod ar gyfer penawdau penodol megis gwariant cyfalaf a chostau yswiriant, ac nad oedd yn rhydd i'w wario.

Mynegodd nifer o aelodau ddymuniad i ysgafnhau'r baich ar drigolion y sir a chael cynnydd is yn y Dreth Cyngor.

Pwysleisiodd Uwch Arweinydd Adnoddau y byddai rhewi'r Dreth Cyngor ar ei lefel bresennol neu ei gynyddu llai na 3.9% yn golygu arbedion/toriadau pellach, ac y byddai hynny'n anodd iawn.

Nododd sawl aelod eu bod o'r farn bod cynnydd o 3.9% yn dderbyniol er mwyn gwarchod gwasanaethau a swyddi.

Syrthiodd gwelliant i rewi'r dreth Cyngor ar ei lefel bresennol.

Syrthiodd gwelliant pellach i gynyddu lefel y Dreth Cyngor 3.2%.

**PENDERFYNWYD**

1. **Cymeradwyo'r Strategaeth Ariannol a'r Gyllideb Refeniw ar gyfer y flwyddyn 2011/2012 a thu hwnt fel a argymhellwyd gan Fwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror 2011 gan gytuno i gyllideb net yn 2011/12 yn cynnwys praeseptau cynghorau cymuned o £217,525,540 a rhaglen gyfalaf ddiwygiedig o £22.698m ar gyfer 2011/12.**

2. **Y dylid nodi i Fwrdd y Cyngor , yn ei gyfarfod ar 23 Tachwedd 2010 gyfrifo'r symiau a ganlyn ar gyfer y flwyddyn 2011/2012 yn unol â'r rheoliadau a luniwyd dan Adran 33 (5) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 ("Y Ddeddf") :-**

   (a) **49,585.48 yw'r swm a gyfrifwyd gan y Bwrdd , yn unol â'r Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cyfrifo Sylfaen y Dreth Gyngor) (Cymru) 1995 fel y'i diwygiwyd fel ei sylfaen Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

   (b) **Rhan o ardal y Cyngor - Cymuned -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdyfi | 948.68 | Llanelltyd | 287.90 |
| Abergwyngregyn | 112.33 | Llanengan | 1,928.64 |
| Abermaw | 1,095.26 | Llanfair | 311.33 |
| Arthog | 608.32 | Llanfihangel y Pennant | 211.87 |
| Bala | 741.90 | Llanfrothen | 211.44 |
| Bangor | 3,690.25 | Llangelynnin | 396.55 |
| Beddgelert | 313.59 | Llangywair | 125.61 |
| Bethesda | 1,612.12 | Llanllechid | 330.49 |
| Betws Garmon | 133.99 | Llanllyfni | 1,343.94 |
| Bontnewydd | 434.39 | Llannor | 888.31 |
| Botwnnog | 413.92 | Llanrug | 1,095.39 |
| Brithdir a Llanfachreth | 395.89 | Llanuwchllyn | 305.25 |
| Bryncrug | 333.39 | Llanwnda | 757.81 |
| Buan | 227.28 | Llanycil | 189.83 |
| Caernarfon | 3,413.98 | Llanystumdwy | 854.37 |
| Clynnog Fawr | 440.67 | Maentwrog | 271.00 |
| Corris | 293.55 | Mawddwy | 331.04 |
| Criccieth | 918.93 | Nefyn | 1,376.29 |
| Dolbenmaen | 598.02 | Pennal | 206.74 |
| Dolgellau | 1,156.89 | Penrhyndeudraeth | 742.39 |
| Dyffryn Ardudwy | 794.96 | Pentir | 971.85 |
| Ffestiniog | 1,673.84 | Pistyll | 233.92 |
| Harlech | 730.51 | Porthmadog | 1,975.36 |
| Llanaelhaearn | 422.84 | Pwllheli | 1,680.35 |
| Llanbedr | 307.93 | Talsarnau | 301.94 |
| Llanbedrog | 675.81 | Trawsfynydd | 502.98 |
| Llanberis | 759.00 | Tudweiliog | 439.95 |
| Llanddeiniolen | 1,771.60 | Tywyn | 1,519.34 |
| Llandderfel | 493.30 | Waunfawr | 555.74 |
| Llandwrog | 984.61 | Y Felinheli | 1,035.09 |
| Llandygai | 955.72 | Y Ganllwyd | 84.52 |

**sef y symiau a gyfrifwyd gan y Bwrdd, fel symiau Sylfaen y Dreth Gyngor ar gyfer y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

3. **Bod y symiau a ganlyn yn cael eu pennu yn awr gan y Cyngor ar gyfer y flwyddyn 2010/2011 yn unol ag Adrannau 32 i 36 o'r Ddeddf.**

(a) **£331,729,970 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(2)(a) i (e) o'r Ddeddf.**

(b) **£112,983,860 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn eu hamcangyfrif ar gyfer yr eitemau a nodwyd yn Adran 32(3)(a) i (c) o'r Ddeddf**

(c) **£218,746,110 Sef y swm sy'n cyfateb i'r gwahaniaeth rhwng cyfanswm 3(a) uchod a chyfanswm 3 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 32 (4) o'r Ddeddf, fel ei ofynion cyllideb ar gyfer y flwyddyn.**

**(ch)£167,805,860 Sef cyfanswm y symiau y mae'r Cyngor yn amcangyfrif y byddant yn daladwy yn ystod y flwyddyn i'w gronfa ar gyfer cyfan o'r Dreth Annomestig Genedlaethol a Grant Cynnal Refeniw, llai amcangyfrif o'r gost i'r Cyngor o ryddhad dewisol o'r dreth annomestig a ganiateir.**

(d) **£1,027.32 Sef y swm yn 3(c) uchod llai'r swm yn 3 (ch) uchod, y cyfan wedi ei rannu gan y swm a nodir yn 2(a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 33 (1) o'r Ddeddf, sef swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn.**

(dd) **£1,441,010 Sef cyfanswm yr holl eitemau arbennig y cyfeirir atynt yn Adran 34 (1) o'r Ddeddf.**

(e) **£998.26 Sef y swm yn 3 (d) uchod llai'r canlyniad a geir wrth rannu'r swm yn 3 (dd) uchod â'r swm yn 2 (a) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor, yn unol ag Adran 34(2) fel swm sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle nad oes unrhyw eitem arbennig yn berthnasol.**

(f) **Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor -**

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aberdaron | 1,010.81 | Llanegryn | 1,025.51 |
| Aberdyfi | 1,020.77 | Llanelltyd | 1,019.10 |
| Abergwyngregyn | 1,006.72 | Llanengan | 1,016.25 |
| Abermaw | 1,023.37 | Llanfair | 1,014.32 |
| Arthog | 1,012.23 | Llanfihangel y Pennant | 1,018.08 |
| Bala | 1,020.50 | Llanfrothen | 1,016.70 |
| Bangor | 1,071.35 | Llangelynnin | 1,013.39 |
| Beddgelert | 1,017.39 | Llangywair | 1,014.18 |
| Bethesda | 1,030.04 | Llanllechid | 1,011.88 |
| Betws Garmon | 1,005.72 | Llanllyfni | 1,023.51 |
| Bontnewydd | 1,023.58 | Llannor | 1,010.64 |
| Botwnnog | 1,007.92 | Llanrug | 1,015.15 |
| Brithdir a Llanfachreth | 1,017.20 | Llanuwchllyn | 1,023.81 |
| Bryncrug | 1,016.39 | Llanwnda | 1,020.30 |
| Buan | 1,014.76 | Llanycil | 1,012.48 |
| Caernarfon | 1,053.08 | Llanystumdwy | 1,012.89 |
| Clynnog Fawr | 1,012.33 | Maentwrog | 1,011.18 |
| Corris | 1,017.92 | Mawddwy | 1,012.61 |
| Criccieth | 1,033.08 | Nefyn | 1,024.18 |
| Dolbenmaen | 1,014.98 | Pennal | 1,015.67 |
| Dolgellau | 1,034.56 | Penrhyndeudraeth | 1,044.06 |
| Dyffryn Ardudwy | 1,022.16 | Pentir | 1,024.37 |
| Ffestiniog | 1,041.27 | Pistyll | 1,017.50 |
| Harlech | 1,017.42 | Porthmadog | 1,022.85 |
| Llanaelhaearn | 1,021.91 | Pwllheli | 1,036.94 |
| Llanbedr | 1,024.24 | Talsarnau | 1,031.38 |
| Llanbedrog | 1,016.02 | Trawsfynydd | 1,021.12 |
| Llanberis | 1,021.98 | Tudweiliog | 1,010.53 |
| Llanddeiniolen | 1,003.90 | Tywyn | 1,027.88 |
| Llandderfel | 1,010.42 | Waunfawr | 1,008.80 |
| Llandwrog | 1,024.16 | Y Felinheli | 1,023.38 |
| Llandygai | 1,016.01 | Y Ganllwyd | 1,030.21 |

**sef y symiau a geir trwy ychwanegu symiau'r eitem neu eitemau arbennig sy'n berthnasol i dai annedd yn y rhannau hynny o ardal y Cyngor y cyfeiriwyd atynt uchod, at y swm a geir yn 3 (e) uchod wedi'u rhannu ym mhob achos gan y swm yn 2 (b) uchod, a gyfrifwyd gan y Cyngor yn unol ag Adran 34 (3) o'r Ddeddf, fel symiau sylfaenol ei Dreth Gyngor am y flwyddyn ar gyfer tai annedd yn y rhannau hynny o'i ardal lle bo un eitem arbennig neu fwy'n berthnasol.**

(ff) **Ar gyfer rhannau o ardal y Cyngor, y ffigyrau a nodir yn Atodiad 1, sef y symiau a geir trwy luosi'r symiau yn 3 (f) uchod â'r rhif sydd yn ôl y cyfrannau a nodir yn Adran 5 (1) o'r Ddeddf, yn berthnasol i dai annedd a restrir mewn band prisio arbennig wedi'i rannu â'r rhif sydd yn ôl y**

**cyfrannau hynny'n berthnasol i dai a restrir ym mand prisio D, a gyfrifir gan y Cyngor, yn unol ag Adran 36 (1) o'r Ddeddf, yn symiau sydd i'w hystyried ar gyfer y flwyddyn ar gyfer y categorïau o dai annedd a restrir yn y gwahanol fandiau prisio.**

4. **Nodi ar gyfer y flwyddyn 2011/2012 fod Awdurdod Heddlu Gogledd Cymru wedi nodi'r symiau a ganlyn mewn praesept a roddwyd i'r Cyngor, yn unol ag Adran 40 o'r Ddeddf ar gyfer pob un o'r categorïau o dai annedd a ddangosir isod:**

| Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 139.56 | 162.82 | 186.08 | 209.34 | 255.86 | 302.38 | 348.90 | 418.68 | 488.46 |

5. **Wedi pennu'r cyfanswm ym mhob achos o'r symiau 3 (ff) a 4 uchod, bod y Cyngor, yn unol ag Adran 30 (2) o'r Ddeddf trwy hyn, yn pennu'r symiau a nodir yn Atodiad 2 ar gyfer y Dreth Gyngor yn y flwyddyn 2011/2012 ar gyfer pob categori o dai annedd a ddangosir yn yr Atodiad.**

**(B) <u>RHEOLAETH TRYSORLYS</u>**

**(i) DIWYGIAD O'R DATGANIAD POLISI RHEOLAETH TRYSORLYS YN DILYN CYHOEDDIAD O COD DIWYGIEDIG GAN CIPFA**

**(ii) DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS / STRATEGAETH DARPARIAETH LLEIAFSWM REFENIW / STRATEGAETH FUDDSODDI BLYNYDDOL AR GYFER 2011/12**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid a gyflwynwyd i Fwrdd y Cyngor ar 22 Chwefror, 2011

Eglurwyd gan yr Arweinydd Cyllid bod gwall yn y ddogfen Saesneg ar dudalen 35 ym mrawddeg gyntaf y "Strategaeth Fenthyca". Nodwyd y dylai'r frawddeg ddarllen "Againsts a backdrop of interest rates remaining *lower for longer then borrowing long term funds as they are required <u>will</u> remain appropriate*."

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid.

Adroddwyd bod y mater wedi ei graffu'n fanwl gan y Prif Bwyllgor Craffu. Eglurwyd bod yr aelodau'n falch y bydd bron y cyfan o fuddsoddiad Gwlad yr Iâ yn dod yn ôl i'r Cyngor. Roeddynt yn awyddus i'r cyhoedd fod yn ymwybodol o'r hyn oedd yn digwydd i'r buddsoddiad, a chytunwyd i gyhoeddi'r wybodaeth yn rhifyn nesaf Newyddion Gwynedd.

**PENDERFYNWYD Mabwysiadu'r Datganiad Polisi Rheolaeth Trysorlys (Atodiadau A, B a C i'r adroddiad), Datganiad Strategaeth Rheoli'r**

**Trysorlys, y Strategaeth Darpariaeth Lleiafswm Refeniw a'r Strategaeth Buddsoddi Flynyddol am 2011/12 (Atodiad Ch), y Dangosyddion Darbodus (Atodiad D) a'r newidiadau i Atodlenni Rheoli'r Trysorlys (Atodiad Dd).**

## 8 TRETH CYNGOR: HAWL DISGRESIWN I GANIATÁU DISGOWNTIAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Cyllid i gadarnhau'n ffurfiol am 2011/12 ac wedi hynny o'r penderfyniadau blaenorol i beidio caniatáu disgowntiau i ail gartrefi ac eiddo gwag.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Cyllid.

Adroddwyd bod nifer o aelodau wedi awgrymu y dylid codi mwy na 100% o'r Dreth Cyngor sy'n daladwy'n arferol ar ail gartrefi, drwy ddefnyddio 'premiwm' yn hytrach na disgownt. I'r perwyl hwn byddai angen newid yn y Rheoliadau.

Eglurwyd bod y Cyngor ar y cyd ag awdurdodau eraill yn lobio i annog datblygiad o'r math, a diolchwyd i'r Cynghorydd R H Wyn Williams am ei waith diflino yn y maes.

Croesawyd yn fawr y polisi i beidio caniatáu disgownt ar eiddo gwag gan ei fod yn arf ychwanegol ar gyfer annog dod ag anheddau gwag yn ôl i ddefnydd.

Nododd aelod bod Pwyllgor Ardal Meirionnydd wedi gofyn i swyddogion ddarparu gwybodaeth i aelodau lleol ynglŷn â phrosiectau dod ag eiddo gwag yn ôl i ddefnydd oedd yn eu hardaloedd, ond nad oedd gwybodaeth wedi eu cyrraedd. Addawodd y Cyfarwyddwr Corfforaethol y byddai'n trafod gyda'r aelod i gytuno gwybodaeth i'w ddarparu.

**PENDERFYNWYD fod Cyngor Gwynedd ar gyfer 2011/12 yn caniatáu <u>DIM</u> disgownt dan Adran 12 o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 i'r ddau ddosbarth o ail gartrefi (dosbarthau A a B) sydd wedi'u diffinio yn Rheoliadau Treth Cyngor (Dosbarth o Eiddo Penodedig), a bod Cyngor Gwynedd yn caniatau <u>DIM</u> disgownt yng nghyswllt tai gwag (dosbarth C).**

## 9 SEFYDLU YSGOL ARDAL ARFAETHEDIG YN LLANEGRYN ERBYN 1 MEDI 2013

Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar ymgynghoriad statudol i sefydlu ysgol ardal yn Llanegryn i wasanaethu dalgylchoedd presennol Ysgolion Abergynolwyn, Bryncrug, Llanegryn a Llwyngwril.

(i) Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Addysg, a manylwyd ar elfennau ychwanegol yn ymwneud â chludiant i'r ysgol, defnydd cymunedol Ysgol Bryncrug a rhagoriaethau safle Llanegryn.

Adroddwyd bod y Cyngor wedi cytuno i ddarparu hebryngwyr dros dro a gwregysau diogelwch ar y bws fydd yn cludo plant i'r ysgol ardal newydd. Hefyd, er nad oedd plant Bryncrug yn gymwys i dderbyn cludiant am ddim ,eglurwyd bod y Cyngor yn barod i ddarparu cludiant rhad ac am ddim i blant Bryncrug, am gyfnod o ddwy flynedd, ac adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod.

Hefyd, oherwydd nad oedd canolfan gymunedol ym mentraf Bryncrug, eglurwyd bod y Cyngor yn ymrwymo i gydweithio gyda'r gymuned i sicrhau parhad adnodd cymunedol cynaladwy i ardal Bryncrug.

Nodwyd gan yr Arweinydd y cytunwyd yn wreiddiol ar safle niwtral oedd yn cael ei ffafrio gan y gymuned leol. Fodd bynnag oherwydd amrywiaeth o resymau nid oedd yn bosibl datblygu'r safle, a chytunwyd ar safle arall ar gyrion Llanegryn - tua hanner milltir o'r safle gwreiddiol. Pwysleisiwyd bod y safle wedi ei ddewis oherwydd ei lleoliad canolog o fewn y dalgylch, a'i fod yn cynnig addysg mewn awyrgylch wledig Gymreig. Hefyd roedd lleoli'r ysgol yn Llanegryn yn llai tebygol o ddenu plant o Ysgol Penybryn Tywyn.

Nodwyd bod Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc wedi cefnogi'r argymhellion.

Diolchodd Uwch Arweinydd Datblygu i'r Arweinydd Addysg am ei gwaith aruthrol yn y maes, a diolchodd hefyd i drigolion ac aelodau etholedig yr ardal.

(ii) Adroddodd aelod lleol Bryncrug a Llanfihangel bod llawer o gefnogaeth ar draws y cymunedau i newid trefniadaeth ysgolion a sefydlu ysgol ardal ar safle niwtral ym Mro Dysynni. Fodd bynnag, eglurodd bod lleoliad yr ysgol wedi creu tensiynau mawr yn lleol, a bod trigolion Bryncrug ac Abergynolwyn wedi eu siomi a'u cythruddo gyda'r penderfyniad i beidio sefydlu'r ysgol ardal ym Mryncrug. Awgrymodd y dylid dewis safle fel y cam cyntaf yn y broses o adolygu gweddill dalgylchoedd y sir.

Nododd bod lleoliad canolog, safle addas ac awydd i gydweithio'n hanfodion pwysig i sicrhau ysgol ardal lewyrchus, a phwysleisiodd bod oll o'r elfennau hyn ym Mryncrug.

Ymhelaethodd bod Bryncrug yn ddaearyddol ganolog ac yn ganolbwynt gweithgareddau ar gyfer yr ardal oherwydd ei leoliad canolog.

Eglurodd bod safle addas arall ym Mryncrug y tu draw i'r ysgol bresennol, a bod trigolion yr ardal yn gefnogol i'r safle yma. Pwysleisiodd y byddai'n golygu arbediad cyfalaf i'r Cyngor gan fod y safle eisoes ym meddiant y Cyngor, ac eglurodd bod gwasanaethau hwylus yno'n barod gan fod y Cyngor wedi gwario llawer i wella'r fynedfa ac i greu llwybr diogel i'r ysgol.

Mynegodd bryder dybryd y bydd pentref Bryncrug yn mynd yn ddi-gyfeiriad heb adnodd cymunedol effeithiol.

Nododd bod gwahaniaethau mawr rhwng y cymunedau erbyn hyn, a bod gryn her i gael y cymunedau i gydweithio. Roedd o'r farn y byddai adeiladu'r ysgol ardal ym Mryncrug yn gam pwysig i asio'r cymunedau, a phwysodd am gefnogaeth yr aelodau i leoli ysgol ardal ym Mryncrug yn hytrach na Llanegryn.

(iii) Roedd sawl aelod o'r farn nad oedd cyfiawnhad prynu safle preifat pan oedd safle eisoes ym meddiant y Cyngor ym Mryncrug.

(vi) Nododd aelod arall bod pentref Llwyngwril hefyd yn rhan o'r broses, a bod trigolion Llwyngwril hefyd wedi brwydro dros eu hysgol a'u cymuned, a bod eu llais wedi'i anwybyddu. Eglurodd bod rhieni ysgol Llwyngwril, ar ddechrau'r broses wedi cynnig gweithio gydag Ysgol Y Friog, oedd nepell o Lwyngwril, ond na chaniatawyd hynny oherwydd bod Y Friog mewn dalgylch gwahanol. Deellir y caniateir cydweithio rhwng ysgolion mewn dalgylchoedd gwahanol erbyn hyn, a chynigiwyd gwelliant i eithrio Ysgol Llwyngwril o'r broses, ac ail ystyried dyfodol yr ysgol. Ni chaniatawyd y gwelliant oherwydd nad oed yn berthnasol i'r cynnig oedd gerbron.

(v) Mynegwyd pryder gan sawl aelod bod y Cyngor wedi hollti a rhwygo cymunedau, ac wedi gwneud cam mawr a thrigolion am na wrandawyd y farn leol. Pwysleisiwyd nad oedd ru'n llythyr yn y ddogfennaeth yn cefnogi'r cynllun, a mynegwyd consyrn bod yr ohebiaeth yn llawn ddrwg deimlad tuag at y Cyngor. Cynigiwyd y dylid ail ystyried yr holl gynllun.

(vi) Mewn ymateb, pwysleisiodd aelod bod y Cyngor, wedi ymgynghori'n wirfoddol cyn ymgynghori'n statudol. Nododd bod y broses o ad-drefnu ysgolion ym Mro Dysynni wedi bod yn hir a thrwsgl ac wedi bod yn gyfnod anodd iawn i drigolion yr ardal. Pwysleisiodd y byddai gwyrdroi'r argymhelliad a dechrau ymgynghori o'r newydd yn ymestyn poen a phryder cymunedau.

Hefyd, pwysleisiodd bod y Cyngor wedi bod yn llwyddiannus i gael £5.4m gan y Cynulliad ar gyfer datblygu'r ysgol ardal newydd, a bod yr arian ar gael yn 2011-14. Eglurwyd bod yr arian yn ddibynnol ar gwblhau'r broses statudol, ac y byddai adnabod safle arall yn golygu ail agor y broses ymgynghori statudol ac yn cynyddu'r risg ynglŷn ag argaeledd arian cyfalaf y Cynulliad.

Ymhellach nododd aelod bod dalgylch Tywyn a'r Bala wedi bod yn ffodus iawn i gael arian cyfalaf ar gyfer adeiladu ysgol ardal newydd. Fodd bynnag roedd cyllidebau'n edwino, ac ofnai na fydd yr un cyfle i weddill dalgylchoedd y sir. Mynegodd gonsyrn y bydd ysgolion yn cau heb ddim i gymryd eu lle. Pwysodd ar aelodau i gefnogi'r argymhelliad rhag cynyddu'r risg o golli'r arian.

Mynegodd sawl aelod gefnogaeth i sefydlu ysgol ardal yn Llanegryn oherwydd bod y safle yn Llanegryn yn ganolog i'r dalgylch. Hefyd roedd yn cynnig addysg mewn awyrgylch wledig a Chymreig, ac yn llai tebygol o ddenu plant o Ysgol Penybryn Tywyn. Yn ogystal roedd pryder y byddai oedi pellach yn peryglu arian cyfalaf y Cynulliad,

**PENDERFYNWYD**

**(i) cymeradwyo'r cynnig i sefydlu Ysgol Gymunedol ardal yn Llanegryn erbyn 1 Medi 2013 i dderbyn disgyblion amrediad oedran 3-11 ac i gyhoeddi rhybuddion statudol i'r bwriad hwnnw yn unol ag Adran 28 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998.**

**(ii) bod y Cyngor yn darparu cludiant rhad ac am ddim i blant Bryncrug, am gyfnod o ddwy flynedd, ac yn adolygu'r sefyllfa ar ddiwedd y cyfnod.**

**(iii) bod y Cyngor yn ymrwymo i gydweithio gyda'r gymuned i sicrhau parhad adnodd cymunedol cynaladwy i ardal Bryncrug.**

**10 Y BWRIAD I GAU YSGOL ABERDYFI ERBYN 31 AWST 2013**

Cyflwynwyd adroddiad Iwan Trefor Jones, Cyfarwyddwr Corfforaethol ar yr ymgynghori statudol ar gynnig i gau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd Addysg.

Adroddwyd bod y Cyngor ym mis Rhagfyr 2010 wedi penderfynu y dylid ymestyn dyddiad cau Ysgol Aberdyfi o Awst 2011 i Awst 2013, fel y gellid cwblhau gwaith i wella Ysgol Penybryn, Tywyn yn gyntaf. Hefyd roedd y dyddiad newydd yn cyd-fynd ag amseriad agor yr ysgol ardal newydd yn Llanegryn, ac roedd rhieni'r ardal yn awyddus i'r newidiadau ddigwydd yr un pryd. Nodwyd bod newid y dyddiad gweithredu'n golygu ei fod yn ofynnol cynnal ymgynghoriad statudol newydd.

Nododd aelod lleol Aberdyfi a Chadeirydd Pwyllgor Craffu Plant a Phobl Ifanc eu bod wedi bod yn ffodus iawn i gael arian cyfalaf oddi wrth y Cynulliad tuag at Ysgolion Bro Dysynni, a diolchodd i swyddogion am eu gwaith i sicrhau'r arian. Pwysleisiodd y bydd yn anos cael arian ar gyfer dalgylchoedd eraill y sir, a mynegodd bryder cyffredinol ynglŷn â'r sefyllfa.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo cau Ysgol Aberdyfi erbyn 31 Awst 2013 gan ddarparu lleoedd i blant yn y dalgylch yn Ysgol Penybryn, Tywyn, a chyhoeddi rhybuddion statudol yn unol ag Adran 29 Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 i nodi hynny.**

## 11 STRATEGAETH HYFFORDDI AELODAU

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol a'r Rheolwr Hyfforddi i fabwysiadu disgrifiadau o rôl a chyfrifoldeb aelodau ynghyd â chymwyseddau ac ymddygiadau.

Gosodwyd cefndir a chyd-destun i'r adroddiad gan Arweinydd y Cyngor, ac anogwyd aelodau i lynu wrth y gwerthodd.

Nododd aelod y bydd trefniadau llywodraethu newydd yn eu lle erbyn Mai 2012, ac y bydd yn golygu newid i rôl a chyfrifoldeb llawer o aelodau. Awgrymwyd y dylid paratoi yn fuan ar gyfer y newid, er mwyn sicrhau bod trefniadau newydd yn eu lle erbyn dechrau'r Cyngor newydd.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu'r dogfennau canlynol fel rhan o Strategaeth Hyfforddi Aelodau:-**

- **Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldeb ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion;**
- **Disgrifiad o Rôl a Chyfrifoldeb ar gyfer Aelodau Craffu;**
- **Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Cadeiryddion ac Is-gadeiryddion;**
- **Cymwyseddau ac Ymddygiadau ar gyfer Aelodau Craffu**

## 12 CYDWEITHIO

Cyflwynwyd adroddiad llafar gan y Prif Weithredwr i ddiweddaru'r sefyllfa ynglŷn â chydweithio gyda Chyngor Môn

Adroddwyd bod y Cyngor yn ei gyfarfod ym mis Rhagfyr 2010, wedi cytuno i gais gan y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, i gymryd rhan mewn astudiaeth sgopio i ddarganfod cyfleoedd cydweithio ar raddfa fawr gyda Chyngor Ynys Môn.

Eglurwyd bod y sefyllfa wleidyddol yng Nghyngor Ynys Môn wedi newid erbyn hyn, a bod ansicrwydd parthed dyfodol arweinyddiaeth wleidyddol y Cyngor. Nodwyd bod y Gweinidog wedi gofyn i Archwilydd Cyffredinol Cymru ail archwilio'r Cyngor ar frys, cyn i'r Gweinidog benderfynu ar ymyrraeth bellach.

Hefyd, roedd Rheolwr Gyfarwyddwr Dros-dro Cyngor Ynys Môn wedi ysgrifennu at staff yn eu cynghori nad yw'r adroddiad sgopio gyda Gwynedd yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Yn dilyn ymgynghori gyda Grŵp Busnes y Cyngor, adroddodd y Prif Weithredwr bod cytundeb y byddai'n ddoeth peidio symud ymlaen gyda'r adroddid sgopio ar hyn o bryd am nad oedd yr hinsawdd bresennol yn sail i gyd-weithio effeithiol, lwyddiannus ar raddfa fawr. Nodwyd y bwriedir parhau i chwilio am gyfleoedd i gydweithio mewn meysydd penodol ar raddfa lai.

Mynegodd aelod bryder y byddai cydweithio ar lefel fawr yn golygu canoli adnoddau a cholli naws leol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad a rhewi' r penderfyniad i gymryd rhan yn yr astudiaeth sgopio i gydweithio ar lefelu fawr gyda Chyngor Môn, ond parhau i archwilio i gydweithio ar lefel lai**

## 13 DYDDIADAU CYFARFODYDD Y CYNGOR AR GYFER 2011/12

Cyflwynwyd, i'w mabwysiadu dyddiadau cyfarfodydd y Cyngor ar gyfer 2011/12.

**PENDERFYNWYD mabwysiadu dyddiadur cyfarfod y Cyngor ar gyfer 2011/12 a rhoi hawl i'r Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol addasu'r dyddiadur yn ôl yr angen.**

## 14 ADRODD YN ÔL AR RYBUDDION O GYNNIG

Cyflwynwyd , er gwybodaeth, adroddiad gan y Pennaeth Economi a Chymuned ar rybudd o gynnig a fabwysiadwyd gan y Cyngor ar 15 Gorffennaf, 2010, i ysgrifennu at gwmni Grant Thornton, gweinyddwyr Cwmni Barcud Derwen i ofyn iddynt sicrhau cyfarfod o gredydwyr y Cwmni yng Nghaernarfon.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad.**

Dechreuodd y cyfarfod am 1.00 p.m. a daeth i ben am 3.30 p.m.

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 673.87 | 786.19 | 898.50 | 1,010.81 | 1,235.43 | 1,460.06 | 1,684.68 | 2,021.62 | 2,358.56 |
| Aberdyfi | 680.51 | 793.93 | 907.35 | 1,020.77 | 1,247.61 | 1,474.45 | 1,701.28 | 2,041.54 | 2,381.80 |
| Abergwyngregyn | 671.15 | 783.00 | 894.86 | 1,006.72 | 1,230.44 | 1,454.15 | 1,677.87 | 2,013.44 | 2,349.01 |
| Abermaw | 682.25 | 795.95 | 909.66 | 1,023.37 | 1,250.79 | 1,478.20 | 1,705.62 | 2,046.74 | 2,387.86 |
| Arthog | 674.82 | 787.29 | 899.76 | 1,012.23 | 1,237.17 | 1,462.11 | 1,687.05 | 2,024.46 | 2,361.87 |
| Bala | 680.33 | 793.72 | 907.11 | 1,020.50 | 1,247.28 | 1,474.06 | 1,700.83 | 2,041.00 | 2,381.17 |
| Bangor | 714.23 | 833.27 | 952.31 | 1,071.35 | 1,309.43 | 1,547.51 | 1,785.58 | 2,142.70 | 2,499.82 |
| Beddgelert | 678.26 | 791.30 | 904.35 | 1,017.39 | 1,243.48 | 1,469.56 | 1,695.65 | 2,034.78 | 2,373.91 |
| Bethesda | 686.69 | 801.14 | 915.59 | 1,030.04 | 1,258.94 | 1,487.84 | 1,716.73 | 2,060.08 | 2,403.43 |
| Betws Garmon | 670.48 | 782.23 | 893.97 | 1,005.72 | 1,229.21 | 1,452.71 | 1,676.20 | 2,011.44 | 2,346.68 |
| Bontnewydd | 682.39 | 796.12 | 909.85 | 1,023.58 | 1,251.04 | 1,478.50 | 1,705.97 | 2,047.16 | 2,388.35 |
| Botwnnog | 671.95 | 783.94 | 895.93 | 1,007.92 | 1,231.90 | 1,455.88 | 1,679.87 | 2,015.84 | 2,351.81 |
| Brithdir a Llanfachreth | 678.13 | 791.16 | 904.18 | 1,017.20 | 1,243.24 | 1,469.29 | 1,695.33 | 2,034.40 | 2,373.47 |
| Bryncrug | 677.59 | 790.53 | 903.46 | 1,016.39 | 1,242.25 | 1,468.12 | 1,693.98 | 2,032.78 | 2,371.58 |
| Buan | 676.51 | 789.26 | 902.01 | 1,014.76 | 1,240.26 | 1,465.76 | 1,691.27 | 2,029.52 | 2,367.77 |
| Caernarfon | 702.05 | 819.06 | 936.07 | 1,053.08 | 1,287.10 | 1,521.12 | 1,755.13 | 2,106.16 | 2,457.19 |
| Clynnog Fawr | 674.89 | 787.37 | 899.85 | 1,012.33 | 1,237.29 | 1,462.25 | 1,687.22 | 2,024.66 | 2,362.10 |
| Corris | 678.61 | 791.72 | 904.82 | 1,017.92 | 1,244.12 | 1,470.33 | 1,696.53 | 2,035.84 | 2,375.15 |
| Criccieth | 688.72 | 803.51 | 918.29 | 1,033.08 | 1,262.65 | 1,492.23 | 1,721.80 | 2,066.16 | 2,410.52 |
| Dolbenmaen | 676.65 | 789.43 | 902.20 | 1,014.98 | 1,240.53 | 1,466.08 | 1,691.63 | 2,029.96 | 2,368.29 |
| Dolgellau | 689.71 | 804.66 | 919.61 | 1,034.56 | 1,264.46 | 1,494.36 | 1,724.27 | 2,069.12 | 2,413.97 |
| Dyffryn Ardudwy | 681.44 | 795.01 | 908.59 | 1,022.16 | 1,249.31 | 1,476.45 | 1,703.60 | 2,044.32 | 2,385.04 |
| Ffestiniog | 694.18 | 809.88 | 925.57 | 1,041.27 | 1,272.66 | 1,504.06 | 1,735.45 | 2,082.54 | 2,429.63 |
| Harlech | 678.28 | 791.33 | 904.37 | 1,017.42 | 1,243.51 | 1,469.61 | 1,695.70 | 2,034.84 | 2,373.98 |
| Llanaelhaearn | 681.27 | 794.82 | 908.36 | 1,021.91 | 1,249.00 | 1,476.09 | 1,703.18 | 2,043.82 | 2,384.46 |
| Llanbedr | 682.83 | 796.63 | 910.44 | 1,024.24 | 1,251.85 | 1,479.46 | 1,707.07 | 2,048.48 | 2,389.89 |
| Llanbedrog | 677.35 | 790.24 | 903.13 | 1,016.02 | 1,241.80 | 1,467.58 | 1,693.37 | 2,032.04 | 2,370.71 |
| Llanberis | 681.32 | 794.87 | 908.43 | 1,021.98 | 1,249.09 | 1,476.19 | 1,703.30 | 2,043.96 | 2,384.62 |
| Llanddeiniolen | 669.27 | 780.81 | 892.36 | 1,003.90 | 1,226.99 | 1,450.08 | 1,673.17 | 2,007.80 | 2,342.43 |
| Llandderfel | 673.61 | 785.88 | 898.15 | 1,010.42 | 1,234.96 | 1,459.50 | 1,684.03 | 2,020.84 | 2,357.65 |
| Llandwrog | 682.77 | 796.57 | 910.36 | 1,024.16 | 1,251.75 | 1,479.34 | 1,706.93 | 2,048.32 | 2,389.71 |
| Llandygai | 677.34 | 790.23 | 903.12 | 1,016.01 | 1,241.79 | 1,467.57 | 1,693.35 | 2,032.02 | 2,370.69 |
| Llanegryn | 683.67 | 797.62 | 911.56 | 1,025.51 | 1,253.40 | 1,481.29 | 1,709.18 | 2,051.02 | 2,392.86 |
| Llanelltyd | 679.40 | 792.63 | 905.87 | 1,019.10 | 1,245.57 | 1,472.03 | 1,698.50 | 2,038.20 | 2,377.90 |
| Llanengan | 677.50 | 790.42 | 903.33 | 1,016.25 | 1,242.08 | 1,467.92 | 1,693.75 | 2,032.50 | 2,371.25 |
| Llanfair | 676.21 | 788.92 | 901.62 | 1,014.32 | 1,239.72 | 1,465.13 | 1,690.53 | 2,028.64 | 2,366.75 |
| Llanfihangel y Pennant | 678.72 | 791.84 | 904.96 | 1,018.08 | 1,244.32 | 1,470.56 | 1,696.80 | 2,036.16 | 2,375.52 |
| Llanfrothen | 677.80 | 790.77 | 903.73 | 1,016.70 | 1,242.63 | 1,468.57 | 1,694.50 | 2,033.40 | 2,372.30 |
| Llangelynnin | 675.59 | 788.19 | 900.79 | 1,013.39 | 1,238.59 | 1,463.79 | 1,688.98 | 2,026.78 | 2,364.58 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llangywair | 676.12 | 788.81 | 901.49 | 1,014.18 | 1,239.55 | 1,464.93 | 1,690.30 | 2,028.36 | 2,366.42 |
| Llanllechid | 674.59 | 787.02 | 899.45 | 1,011.88 | 1,236.74 | 1,461.60 | 1,686.47 | 2,023.76 | 2,361.05 |
| Llanllyfni | 682.34 | 796.06 | 909.79 | 1,023.51 | 1,250.96 | 1,478.40 | 1,705.85 | 2,047.02 | 2,388.19 |
| Llannor | 673.76 | 786.05 | 898.35 | 1,010.64 | 1,235.23 | 1,459.81 | 1,684.40 | 2,021.28 | 2,358.16 |
| Llanrug | 676.77 | 789.56 | 902.36 | 1,015.15 | 1,240.74 | 1,466.33 | 1,691.92 | 2,030.30 | 2,368.68 |
| Llanuwchllyn | 682.54 | 796.30 | 910.05 | 1,023.81 | 1,251.32 | 1,478.84 | 1,706.35 | 2,047.62 | 2,388.89 |
| Llanwnda | 680.20 | 793.57 | 906.93 | 1,020.30 | 1,247.03 | 1,473.77 | 1,700.50 | 2,040.60 | 2,380.70 |
| Llanycil | 674.99 | 787.48 | 899.98 | 1,012.48 | 1,237.48 | 1,462.47 | 1,687.47 | 2,024.96 | 2,362.45 |
| Llanystumdwy | 675.26 | 787.80 | 900.35 | 1,012.89 | 1,237.98 | 1,463.06 | 1,688.15 | 2,025.78 | 2,363.41 |
| Maentwrog | 674.12 | 786.47 | 898.83 | 1,011.18 | 1,235.89 | 1,460.59 | 1,685.30 | 2,022.36 | 2,359.42 |
| Mawddwy | 675.07 | 787.59 | 900.10 | 1,012.61 | 1,237.63 | 1,462.66 | 1,687.68 | 2,025.22 | 2,362.76 |
| Nefyn | 682.79 | 796.58 | 910.38 | 1,024.18 | 1,251.78 | 1,479.37 | 1,706.97 | 2,048.36 | 2,389.75 |
| Pennal | 677.11 | 789.97 | 902.82 | 1,015.67 | 1,241.37 | 1,467.08 | 1,692.78 | 2,031.34 | 2,369.90 |
| Penrhyndeudraeth | 696.04 | 812.05 | 928.05 | 1,044.06 | 1,276.07 | 1,508.09 | 1,740.10 | 2,088.12 | 2,436.14 |
| Pentir | 682.91 | 796.73 | 910.55 | 1,024.37 | 1,252.01 | 1,479.65 | 1,707.28 | 2,048.74 | 2,390.20 |
| Pistyll | 678.33 | 791.39 | 904.44 | 1,017.50 | 1,243.61 | 1,469.72 | 1,695.83 | 2,035.00 | 2,374.17 |
| Porthmadog | 681.90 | 795.55 | 909.20 | 1,022.85 | 1,250.15 | 1,477.45 | 1,704.75 | 2,045.70 | 2,386.65 |
| Pwllheli | 691.29 | 806.51 | 921.72 | 1,036.94 | 1,267.37 | 1,497.80 | 1,728.23 | 2,073.88 | 2,419.53 |
| Talsarnau | 687.59 | 802.18 | 916.78 | 1,031.38 | 1,260.58 | 1,489.77 | 1,718.97 | 2,062.76 | 2,406.55 |
| Trawsfynydd | 680.75 | 794.20 | 907.66 | 1,021.12 | 1,248.04 | 1,474.95 | 1,701.87 | 2,042.24 | 2,382.61 |
| Tudweiliog | 673.69 | 785.97 | 898.25 | 1,010.53 | 1,235.09 | 1,459.65 | 1,684.22 | 2,021.06 | 2,357.90 |
| Tywyn | 685.25 | 799.46 | 913.67 | 1,027.88 | 1,256.30 | 1,484.72 | 1,713.13 | 2,055.76 | 2,398.39 |
| Waunfawr | 672.53 | 784.62 | 896.71 | 1,008.80 | 1,232.98 | 1,457.16 | 1,681.33 | 2,017.60 | 2,353.87 |
| Y Felinheli | 682.25 | 795.96 | 909.67 | 1,023.38 | 1,250.80 | 1,478.22 | 1,705.63 | 2,046.76 | 2,387.89 |
| Y Ganllwyd | 686.81 | 801.27 | 915.74 | 1,030.21 | 1,259.15 | 1,488.08 | 1,717.02 | 2,060.42 | 2,403.82 |

| | Band A | Band B | Band C | Band D | Band E | Band F | Band G | Band H | Band I |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Aberdaron | 813.43 | 949.01 | 1,084.58 | 1,220.15 | 1,491.29 | 1,762.44 | 2,033.58 | 2,440.30 | 2,847.02 |
| Aberdyfi | 820.07 | 956.75 | 1,093.43 | 1,230.11 | 1,503.47 | 1,776.83 | 2,050.18 | 2,460.22 | 2,870.26 |
| Abergwyngregyn | 810.71 | 945.82 | 1,080.94 | 1,216.06 | 1,486.30 | 1,756.53 | 2,026.77 | 2,432.12 | 2,837.47 |
| Abermaw | 821.81 | 958.77 | 1,095.74 | 1,232.71 | 1,506.65 | 1,780.58 | 2,054.52 | 2,465.42 | 2,876.32 |
| Arthog | 814.38 | 950.11 | 1,085.84 | 1,221.57 | 1,493.03 | 1,764.49 | 2,035.95 | 2,443.14 | 2,850.33 |
| Bala | 819.89 | 956.54 | 1,093.19 | 1,229.84 | 1,503.14 | 1,776.44 | 2,049.73 | 2,459.68 | 2,869.63 |
| Bangor | 853.79 | 996.09 | 1,138.39 | 1,280.69 | 1,565.29 | 1,849.89 | 2,134.48 | 2,561.38 | 2,988.28 |
| Beddgelert | 817.82 | 954.12 | 1,090.43 | 1,226.73 | 1,499.34 | 1,771.94 | 2,044.55 | 2,453.46 | 2,862.37 |
| Bethesda | 826.25 | 963.96 | 1,101.67 | 1,239.38 | 1,514.80 | 1,790.22 | 2,065.63 | 2,478.76 | 2,891.89 |
| Betws Garmon | 810.04 | 945.05 | 1,080.05 | 1,215.06 | 1,485.07 | 1,755.09 | 2,025.10 | 2,430.12 | 2,835.14 |
| Bontnewydd | 821.95 | 958.94 | 1,095.93 | 1,232.92 | 1,506.90 | 1,780.88 | 2,054.87 | 2,465.84 | 2,876.81 |
| Botwnnog | 811.51 | 946.76 | 1,082.01 | 1,217.26 | 1,487.76 | 1,758.26 | 2,028.77 | 2,434.52 | 2,840.27 |
| Brithdir a Llanfachreth | 817.69 | 953.98 | 1,090.26 | 1,226.54 | 1,499.10 | 1,771.67 | 2,044.23 | 2,453.08 | 2,861.93 |
| Bryncrug | 817.15 | 953.35 | 1,089.54 | 1,225.73 | 1,498.11 | 1,770.50 | 2,042.88 | 2,451.46 | 2,860.04 |
| Buan | 816.07 | 952.08 | 1,088.09 | 1,224.10 | 1,496.12 | 1,768.14 | 2,040.17 | 2,448.20 | 2,856.23 |
| Caernarfon | 841.61 | 981.88 | 1,122.15 | 1,262.42 | 1,542.96 | 1,823.50 | 2,104.03 | 2,524.84 | 2,945.65 |
| Clynnog Fawr | 814.45 | 950.19 | 1,085.93 | 1,221.67 | 1,493.15 | 1,764.63 | 2,036.12 | 2,443.34 | 2,850.56 |
| Corris | 818.17 | 954.54 | 1,090.90 | 1,227.26 | 1,499.98 | 1,772.71 | 2,045.43 | 2,454.52 | 2,863.61 |
| Criccieth | 828.28 | 966.33 | 1,104.37 | 1,242.42 | 1,518.51 | 1,794.61 | 2,070.70 | 2,484.84 | 2,898.98 |
| Dolbenmaen | 816.21 | 952.25 | 1,088.28 | 1,224.32 | 1,496.39 | 1,768.46 | 2,040.53 | 2,448.64 | 2,856.75 |
| Dolgellau | 829.27 | 967.48 | 1,105.69 | 1,243.90 | 1,520.32 | 1,796.74 | 2,073.17 | 2,487.80 | 2,902.43 |
| Dyffryn Ardudwy | 821.00 | 957.83 | 1,094.67 | 1,231.50 | 1,505.17 | 1,778.83 | 2,052.50 | 2,463.00 | 2,873.50 |
| Ffestiniog | 833.74 | 972.70 | 1,111.65 | 1,250.61 | 1,528.52 | 1,806.44 | 2,084.35 | 2,501.22 | 2,918.09 |
| Harlech | 817.84 | 954.15 | 1,090.45 | 1,226.76 | 1,499.37 | 1,771.99 | 2,044.60 | 2,453.52 | 2,862.44 |
| Llanaelhaearn | 820.83 | 957.64 | 1,094.44 | 1,231.25 | 1,504.86 | 1,778.47 | 2,052.08 | 2,462.50 | 2,872.92 |
| Llanbedr | 822.39 | 959.45 | 1,096.52 | 1,233.58 | 1,507.71 | 1,781.84 | 2,055.97 | 2,467.16 | 2,878.35 |
| Llanbedrog | 816.91 | 953.06 | 1,089.21 | 1,225.36 | 1,497.66 | 1,769.96 | 2,042.27 | 2,450.72 | 2,859.17 |
| Llanberis | 820.88 | 957.69 | 1,094.51 | 1,231.32 | 1,504.95 | 1,778.57 | 2,052.20 | 2,462.64 | 2,873.08 |
| Llanddeiniolen | 808.83 | 943.63 | 1,078.44 | 1,213.24 | 1,482.85 | 1,752.46 | 2,022.07 | 2,426.48 | 2,830.89 |
| Llandderfel | 813.17 | 948.70 | 1,084.23 | 1,219.76 | 1,490.82 | 1,761.88 | 2,032.93 | 2,439.52 | 2,846.11 |
| Llandwrog | 822.33 | 959.39 | 1,096.44 | 1,233.50 | 1,507.61 | 1,781.72 | 2,055.83 | 2,467.00 | 2,878.17 |
| Llandygai | 816.90 | 953.05 | 1,089.20 | 1,225.35 | 1,497.65 | 1,769.95 | 2,042.25 | 2,450.70 | 2,859.15 |
| Llanegryn | 823.23 | 960.44 | 1,097.64 | 1,234.85 | 1,509.26 | 1,783.67 | 2,058.08 | 2,469.70 | 2,881.32 |
| Llanelltyd | 818.96 | 955.45 | 1,091.95 | 1,228.44 | 1,501.43 | 1,774.41 | 2,047.40 | 2,456.88 | 2,866.36 |
| Llanengan | 817.06 | 953.24 | 1,089.41 | 1,225.59 | 1,497.94 | 1,770.30 | 2,042.65 | 2,451.18 | 2,859.71 |
| Llanfair | 815.77 | 951.74 | 1,087.70 | 1,223.66 | 1,495.58 | 1,767.51 | 2,039.43 | 2,447.32 | 2,855.21 |
| Llanfihangel y Pennant | 818.28 | 954.66 | 1,091.04 | 1,227.42 | 1,500.18 | 1,772.94 | 2,045.70 | 2,454.84 | 2,863.98 |
| Llanfrothen | 817.36 | 953.59 | 1,089.81 | 1,226.04 | 1,498.49 | 1,770.95 | 2,043.40 | 2,452.08 | 2,860.76 |
| Llangelynnin | 815.15 | 951.01 | 1,086.87 | 1,222.73 | 1,494.45 | 1,766.17 | 2,037.88 | 2,445.46 | 2,853.04 |
| Llangywair | 815.68 | 951.63 | 1,087.57 | 1,223.52 | 1,495.41 | 1,767.31 | 2,039.20 | 2,447.04 | 2,854.88 |

| | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Llanllechid | 814.15 | 949.84 | 1,085.53 | 1,221.22 | 1,492.60 | 1,763.98 | 2,035.37 | 2,442.44 | 2,849.51 |
| Llanllyfni | 821.90 | 958.88 | 1,095.87 | 1,232.85 | 1,506.82 | 1,780.78 | 2,054.75 | 2,465.70 | 2,876.65 |
| Llannor | 813.32 | 948.87 | 1,084.43 | 1,219.98 | 1,491.09 | 1,762.19 | 2,033.30 | 2,439.96 | 2,846.62 |
| Llanrug | 816.33 | 952.38 | 1,088.44 | 1,224.49 | 1,496.60 | 1,768.71 | 2,040.82 | 2,448.98 | 2,857.14 |
| Llanuwchllyn | 822.10 | 959.12 | 1,096.13 | 1,233.15 | 1,507.18 | 1,781.22 | 2,055.25 | 2,466.30 | 2,877.35 |
| Llanwnda | 819.76 | 956.39 | 1,093.01 | 1,229.64 | 1,502.89 | 1,776.15 | 2,049.40 | 2,459.28 | 2,869.16 |
| Llanycil | 814.55 | 950.30 | 1,086.06 | 1,221.82 | 1,493.34 | 1,764.85 | 2,036.37 | 2,443.64 | 2,850.91 |
| Llanystumdwy | 814.82 | 950.62 | 1,086.43 | 1,222.23 | 1,493.84 | 1,765.44 | 2,037.05 | 2,444.46 | 2,851.87 |
| Maentwrog | 813.68 | 949.29 | 1,084.91 | 1,220.52 | 1,491.75 | 1,762.97 | 2,034.20 | 2,441.04 | 2,847.88 |
| Mawddwy | 814.63 | 950.41 | 1,086.18 | 1,221.95 | 1,493.49 | 1,765.04 | 2,036.58 | 2,443.90 | 2,851.22 |
| Nefyn | 822.35 | 959.40 | 1,096.46 | 1,233.52 | 1,507.64 | 1,781.75 | 2,055.87 | 2,467.04 | 2,878.21 |
| Pennal | 816.67 | 952.79 | 1,088.90 | 1,225.01 | 1,497.23 | 1,769.46 | 2,041.68 | 2,450.02 | 2,858.36 |
| Penrhyndeudraeth | 835.60 | 974.87 | 1,114.13 | 1,253.40 | 1,531.93 | 1,810.47 | 2,089.00 | 2,506.80 | 2,924.60 |
| Pentir | 822.47 | 959.55 | 1,096.63 | 1,233.71 | 1,507.87 | 1,782.03 | 2,056.18 | 2,467.42 | 2,878.66 |
| Pistyll | 817.89 | 954.21 | 1,090.52 | 1,226.84 | 1,499.47 | 1,772.10 | 2,044.73 | 2,453.68 | 2,862.63 |
| Porthmadog | 821.46 | 958.37 | 1,095.28 | 1,232.19 | 1,506.01 | 1,779.83 | 2,053.65 | 2,464.38 | 2,875.11 |
| Pwllheli | 830.85 | 969.33 | 1,107.80 | 1,246.28 | 1,523.23 | 1,800.18 | 2,077.13 | 2,492.56 | 2,907.99 |
| Talsarnau | 827.15 | 965.00 | 1,102.86 | 1,240.72 | 1,516.44 | 1,792.15 | 2,067.87 | 2,481.44 | 2,895.01 |
| Trawsfynydd | 820.31 | 957.02 | 1,093.74 | 1,230.46 | 1,503.90 | 1,777.33 | 2,050.77 | 2,460.92 | 2,871.07 |
| Tudweiliog | 813.25 | 948.79 | 1,084.33 | 1,219.87 | 1,490.95 | 1,762.03 | 2,033.12 | 2,439.74 | 2,846.36 |
| Tywyn | 824.81 | 962.28 | 1,099.75 | 1,237.22 | 1,512.16 | 1,787.10 | 2,062.03 | 2,474.44 | 2,886.85 |
| Waunfawr | 812.09 | 947.44 | 1,082.79 | 1,218.14 | 1,488.84 | 1,759.54 | 2,030.23 | 2,436.28 | 2,842.33 |
| Y Felinheli | 821.81 | 958.78 | 1,095.75 | 1,232.72 | 1,506.66 | 1,780.60 | 2,054.53 | 2,465.44 | 2,876.35 |
| Y Ganllwyd | 826.37 | 964.09 | 1,101.82 | 1,239.55 | 1,515.01 | 1,790.46 | 2,065.92 | 2,479.10 | 2,892.28 |